12. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a dim digon o bobl ifanc yn gadael addysg (7 miliwn) i lenwi'r amcangyfrif o 13.5 miliwn o swyddi gwag ar lefel y DU yn y degawd nesaf<sup>6</sup>, rhaid gwneud mwy i ymgysylltu â'r 'miliwn coll' h.y. rhai dros 50 a wnaed 'yn ddi-waith yn anfwriadol'<sup>7</sup>, gan helpu unigolion ac economïau unigol a lleol ar yr un pryd.
13. Nid wyf yn cytuno nad oes achos busnes cyflawn wedi cael ei gyflwyno ar gyfer cynllun tebyg i Twf Swyddi Cymru. Ychydig iawn o gynlluniau sydd yna i helpu pobl hŷn i ddechrau i gyflogaeth neu i sicrhau bod ganddynt y sgiliau iawn i aros yn y farchnad lafur. Er fy mod yn croesawu'r gydnabyddiaeth bod pobl hŷn yn wynebu rhwystrau rhag cyflogaeth gwahanol iawn i rai mewn grwpiau oedran eraill, rwy'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru yn barod i drafod a datblygu rhaglen briodol a theg ar gyfer y nifer fawr o bobl ddi-waith dros 50 oed a geir yng Nghymru. Drwy gyfrwng Heneiddio'n Dda yng Nghymru byddwn yn barod i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu model cost-effeithiol ond priodol sy'n rhoi sylw i'r rhwystrau penodol hyn, ac adeiladu ar y cynigion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2015<sup>8</sup>.
14. At hynny, gallai rhaglen sy'n darparu profiad gwaith i bobl dros 50 oed fod yn hynod fuddiol a gweithredu fel 'porth' i gyflogaeth amser llawn neu ran-amser. Gallai profiad gwaith ddarparu'r ysgogiad i ddatblygu sgiliau newydd, magu hyder ac addasu i amgylcheddau gwaith newydd. Mae Twf Swyddi Cymru

---

<sup>5</sup> <https://stats.wales.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Economic-Inactivity/economicinactivityratesexcludingstudents-by-welshlocalarea-year>

<sup>6</sup> <https://www.niace.org.uk/sites/default/files/resources/Manifesto%20General%20Election%202015%20Skills%20for%20Prosperity.pdf>

<sup>7</sup> [http://www.ilcuk.org.uk/images/uploads/publication-pdfs/The\\_missing\\_millions\\_web.pdf](http://www.ilcuk.org.uk/images/uploads/publication-pdfs/The_missing_millions_web.pdf)

<sup>8</sup> <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s36927/EBC4-05-15%20p.14%20Older%20Peoples%20Commissioner%20-%20additional%20information.pdf>

wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i gefnogi pobl ifanc a gallai cynllun tebyg ar gyfer pobl hŷn wella eu rhagolygon cyflogaeth.

15. Yn absenoldeb cynllun tebyg i Twf Swyddi Cymru, mae'r Dirprwy Weinidog yn cyfeirio at Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Cymru, sef rhaglen gyflogadwyedd newydd i oedolion o fis Ebrill 2016 ymlaen. Bydd y rhaglen hon yn canolbwyntio ar Sgiliau Hanfodol craidd, ac rwy'n croesawu hyn yn fawr iawn. Rwyf wedi cefnogi'r syniad am Becyn Sgiliau Hanfodol ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys sgiliau ariannol a digidol, i wella eu rhagolygon cyflogaeth a chynyddu eu gwydnwch yn ddiweddarach mewn bywyd. Rwy'n disgwyl y bydd y rhaglen newydd yn rhoi sylw i anghenion sgiliau penodol pobl dros 50.

## Argymhelliad 8

16. Mae penderfyniad y Dirprwy Weinidog i wrthod yr argymhelliad i gyhoeddi strategaeth sgiliau yn benodol ar gyfer pobl dros 50 yn peri gofid. Y rhesymeg yw bod y cynnig hwn, a gynhwysir yn Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn 2013-23, wedi cael ei disodli gan Ddatganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Sgiliau a'i Chynllun Gweithredu Sgiliau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfeiriadau yn y dogfennau hyn at y setiau sgiliau penodol y mae gofyn i bobl dros 50 eu cael, nac ystyriaeth ddigonol i'r rhwystrau allweddol rhag aros yn y farchnad lafur neu ail-ymuno â hi sy'n wynebu pobl dros 50 oed, ee cyfrifoldebau gofalu, cymwysterau sydd angen eu diweddarau, gwella hyder a'r angen am batrymau gwaith hyblyg.
17. Mae'r Dirprwy Weinidog hefyd yn cyfeirio at Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Buddsoddi ar y cyd mewn sgiliau. Yn fy ymateb i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith soniais am bwysigrwydd annog cyflogwyr i fuddsoddi mewn sgiliau ar gyfer pobl o bob oed o'r cychwyn cyntaf<sup>9</sup>. Rhaid i gyflogwyr yng Nghymru gydnabod manteision cyflogi gweithlu amrywiol, aml-

---

<sup>9</sup> <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s41213/CIS%2007%20-%20Older%20Peoples%20Commissioner%20for%20Wales.pdf>

genhedlaeth a buddsoddi mewn sgiliau i gadw neu ailgysylltu â gweithwyr hŷn. Ni roddir digon o sylw ar hyn o bryd i anghenion sgiliau pobl dros 50 oed a gallai Strategaeth Sgiliau Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn, wedi'i hategu gan gynllun tebyg i Twf Swyddi Cymru, wneud gwahaniaeth go iawn drwy roi i rai dros 50 y sgiliau iawn i ddychwelyd i gyflogaeth.

## Argymhelliad 9

18. Mae gwrthod yr argymhelliad i gynhyrchu canlyniadau penodol sy'n hyrwyddo gweithgarwch economaidd pobl dros 50 oed fel rhan o'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru yn peri gofid. Rwy'n gwbl gefnogol i ddull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac mae cael pobl dros 50 yn ôl i gyflogaeth yn gallu arwain at ystod o ganlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys mwy o wytnwch ariannol a bod yn llai agored i dlodi ac ynysu cymdeithasol, cyfraniadau cadarnhaol i iechyd a lles corfforol a meddyliol yr unigolyn, ynghyd â gwelliannau mewn sgiliau, hyder a'r gallu i addasu i newidiadau yn ddiweddarach mewn bywyd. Fel y soniwyd eisoes, nid oes llawer o dystiolaeth o'r problemau cyflogaeth sy'n wynebu pobl dros 50 oed, a phrin yw'r data ar faint o bobl hŷn, yn enwedig rhwng 50 ac oedran Pensiwn y Wladwriaeth, sy'n 'NEETs' ac sy'n ceisio ail-ymuno â'r farchnad lafur.
19. Mae'r Dirprwy Weinidog yn cyfeirio at y Mesurau Perfformiad Sgiliau, a gyhoeddwyd ym Medi 2014<sup>10</sup>. Er bod gwell dealltwriaeth o sut mae'r mesurau hyn yn monitro polisïau sgiliau a rhaglenni i gefnogi swyddi a thwf, cynaliadwyedd ariannol a chydaddoldeb a thegwch i'w groesawu, nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol at y materion sgiliau penodol sy'n wynebu rhai dros 50. Mae'r Mesurau yn cyfeirio at ddata ar y mynediad cyfartal i raglenni cyflogaeth a sgiliau. Er bod Llywodraeth Cymru yn haeru bod y mwyafrif helaeth o raglenni cyflogaeth a sgiliau yn niwtral o ran oedran, mewn gwirionedd mae'r rhaglenni hyn yn cael eu hanelu at rai o

---

<sup>10</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140930-skills-performance-measures-cy.pdf>

dan 25 oed. At hynny, mewn rhai sectorau e.e. y diwydiant gofal, rhaid i rai dros 25 ariannu eu hyfforddiant eu hunain ac nid oes dim cymhelliant yn aml i gyflogwyr gyflogi neu gynnig prentisiaethau i rai dros 50<sup>11</sup>.

20. Nid yw pobl dros 50 sy'n chwilio am gyflogaeth yn cael chwarae teg a rhaid i Lywodraeth Cymru fynd y tu hwnt i'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a'r Mesurau Perfformiad Sgiliau i gefnogi gweithgarwch economaidd rhai 50 oed a throsodd. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru ystyried y cynigion gan Niace Dysgu Cymru yn ei gyhoeddiad 'Sgiliau ar gyfer Ffyniant' i sicrhau bod adolygiadau personol canol-gyrfa ar gael i bob oedolyn, gan ddwyn ynghyd wybodaeth am addysg a sgiliau i helpu pobl i benderfynu pa ddatblygiadau sgiliau pellach mae arnynt angen, yn ogystal â gwneud mwy i sicrhau bod rhai dros 50 yn elwa o brentisiaethau, sy'n 'agoriad' effeithiol yn ôl i gyflogaeth<sup>12</sup>.

## Argymhelliad 10

21. Rwy'n croesawu derbyn yr argymhelliad i ddatganoli rhaglenni sgiliau'r Adran Gwaith a Phensiynau i Gymru mewn egwyddor. Rwy'n gefnogol iawn i ddatganiad y Dirprwy Weinidog y ceir mantais sylweddol o ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y Rhaglen Waith. Mae dull o'r fath yn golygu y gall Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth wedi'i deilwra i helpu pobl o bob oed yn ôl i gyflogaeth a rhoi sylw i faterion sy'n benodol i Gymru.
22. Fel rwyf wedi'i grybwyll o'r blaen, mae perthynas gweithio mewn partneriaeth gadarn rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn hanfodol er mwyn cydlynu ymdrechion a lleihau dyblygu, gan arwain at ymyriadau gwell, mwy trawiadol sy'n cefnogi pobl dros 50 ar lawr gwlad. Cynigiodd Llywodraeth flaenorol y DU rai diwygiadau cadarnhaol i frwydro yn erbyn rhagfarn ar sail oedran yn y gweithle, gan gynnwys cynnig i

---

<sup>11</sup> <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s41213/CIS%2007%20-%20Older%20Peoples%20Commissioner%20for%20Wales.pdf>

<sup>12</sup> <http://www.niacecymru.org.uk/sites/default/files/resources/Final%20Manifesto%20Welsh%20version.pdf>

gyflwyno hyrwyddwyr gweithwyr hŷn ar draws y DU<sup>13</sup>. Byddai'n hynod fuddiol pe byddai'r Llywodraeth bresennol yn bwrw ymlaen â'r cynigion hyn, ac mae hyrwyddwr gweithwyr hŷn i Gymru, yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, yn un enghraifft o gydweithredu effeithiol rhwng Llywodraethau.

## Argymhelliad 11

23. Rwyf yn croesawu'n fawr benderfyniad y Dirprwy Weinidog i dderbyn yr argymhelliad hwn. Fel rwyf wedi pwysleisio o'r blaen, er eu bod yn niwtral o ran oedran yn y rethreg, mae'r rhan fwyaf o raglenni cyflogaeth a sgiliau yn canolbwyntio ar rai dan 25 oed yn ymarferol. Mae gan Gymru 'weithlu angof' ynghyd â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad nad ydynt yn cael eu defnyddio na'u gwerthfawrogi'n ddigonol ar hyn o bryd. Mae gwell cefnogaeth i rai dros 50 o fudd i unigolion, cyflogwyr ac economïau lleol a chenedlaethol; mae adroddiad diweddar gan Hyrwyddwr Busnes y DU ar gyfer Gweithwyr Hŷn yn awgrymu bod ymestyn bywydau gwaith a chadw, ailhyfforddi a recriwtio gweithwyr hŷn yn gallu ychwanegu £55bn arall i gynnyrch domestig gros y DU<sup>14</sup>.

24. Mae'n hanfodol bod pobl iau yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cael eu cefnogi i mewn i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, fodd bynnag, mae hefyd yn hanfodol bod rhai dros 50 oed, sydd eisïau ac angen aros mewn gwaith neu ddychwelyd i waith, yn cael yr un gefnogaeth. Byddai llawer o'r 205k o bobl ddi-waith yn y grŵp oedran 50-64 yng Nghymru yn hoffi gweithio<sup>15</sup>. Mae'r diffyg cyfle a mynediad i gefnogaeth yn fater cydraddoldeb y mae angen rhoi sylw iddo ar frys. Mae cydnabyddiaeth y Dirprwy Weinidog bod angen i Lywodraeth Cymru fonitro'r effaith y mae blaenoriaethu ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc yn ei chael ar

---

<sup>13</sup> <https://www.gov.uk/government/news/fundamental-reform-to-fight-ageism-in-the-workplace-older-workers-scheme-to-tackle-age-discrimination>

<sup>14</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/411420/a-new-vision-for-older-workers.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/411420/a-new-vision-for-older-workers.pdf)

<sup>15</sup> <https://stats.wales.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Economic-Inactivity/economicinactivityratesexcludingstudents-by-welshlocalarea-year> (Anweithredol yn economaidd 196k, hawlio Lwfans Ceisio Gwaith 9k)

bobl hŷn i'w groesawu, ac rwy'n disgwyl y bydd y Rhaglen Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Cymru a gaiff ei lansio maes o law yn rhoi sylw gwell i anghenion rhai dros 50, wedi'i chefnogi'n llwyr gan y Mesurau Perfformiad Sgiliau sy'n bodoli eisoes.

## Casgliadau

25. Rwy'n falch bod cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl dros 50 oed yng Nghymru, mater sydd heb gael llawer o sylw ers gormod o amser o lawer, yn awr ar yr agenda. Croesewir adroddiad y Pwyllgor yn fawr gyda rhai argymhellion cadarnhaol y gallent, o'u gweithredu, wneud llawer i wella rhagolygon cyflogaeth pobl dros 50 oed ar draws Cymru.
26. Mae llawer i'w groesawu yn ymateb Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, mae'r ffaith iddi wrthod rhai argymhellion allweddol yn anffodus ac yn gyfle wedi'i golli i ddarparu gwell cymorth i bobl hŷn sydd eisiau neu angen aros yn y farchnad lafur neu ail-ymuno â hi. Byddaf yn trafod y materion hyn ymhellach gyda'r Dirprwy Weinidog yn ein cyfarfod nesaf ac edrychaf ymlaen at roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor yn ein cyfarfod ar 7 Hydref.

## **Papur i'r Pwyllgor Menter a Busnes: adroddiad dilynol ar Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl dros 50 oed**

Mae ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl dros 50 oed bellach wedi'i gyhoeddi. Rwy'n gobeithio bod aelodau'r Pwyllgor wedi cael cyfle i ystyried y pwyntiau a godwyd yn yr ymateb hwnnw, gan gynnwys y sail resymegol dros pam nad oedd rhai argymhellion wedi'u derbyn ar hyn o bryd.

Cyn imi ddod i'r Pwyllgor ar 7 Hydref hoffwn achub ar y cyfle hwn i grynhoi'r pwyntiau a godwyd gennyf yn flaenorol a rhoi sylwadau ar yr hyn sydd, yn fy marn i, yn themâu sylfaenol sy'n ymddangos yn ganolog i'r 11 o argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor.

### **Datblygu'r sail dystiolaeth ac asesu effaith**

Canolbwyntiodd nifer o'r argymhellion ar ddatblygu sail dystiolaeth i edrych yn benodol ar yr unigolion hynny dros 50 oed. Rwy'n cydnabod yn llawn fanteision cynnal gwaith o'r fath. Fel y nodwyd yn ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, ceir ymrwymiad i ddatblygu nifer o'r gweithgareddau a gynigir yn amodol ar adnoddau a chydabod y wybodaeth ymchwil ac ystadegol sydd eisoes ar gael inni.

Yn dilyn cyhoeddi'r Datganiad Polisi ar Sgiliau ym mis Ionawr 2014 rydym wedi gwneud nifer o newidiadau polisi a rhaglenni gyda'r nod o sicrhau ein bod yn gallu bodloni'r uchelgais hirdymor o system sgiliau gynaliadwy a chystadleuol i Gymru. Rwy'n ymrwymedig i sicrhau y gall y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gael eu hasesu'n briodol o ran eu heffaith ar yr economi, cyflogwyr ac unigolion yng Nghymru. Am y rheswm hwn gwnaethom gyhoeddi Mesurau Perfformiad Sgiliau ym mis Medi 2014 ac mae'r rhain yn parhau i gael eu mireinio a'u hintegreiddio o fewn cyflawni polisi a rhaglenni Llywodraeth Cymru.

Bydd y Mesur Perfformiad Sgiliau ar gyfer *Cydraddoldeb a Thegwch* yn darparu mwy o graffu ar gymorth i'r grwpiau hynny â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys gweithwyr hŷn. Bydd hyn yn darparu sail dystiolaeth gref ar gyfer mesur effaith polisiau ac yn ein galluogi i ailgyfeirio adnoddau, lle y bo'n briodol.

### **Cyfathrebu ac ymgysylltu**

Mae'r Pwyllgor wedi tynnu sylw at nifer o feysydd lle dylai ymgysylltu ddigwydd rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r cynnig gan y Comisiynydd Pobl Hŷn sy'n awgrymu y dylai arweinydd gweinidogol dynodedig gael ei roi yn ei le yn gysylltiedig â'r Strategaeth Pobl Hŷn. Rwyf i fod i gyfarfod â'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn fuan ac felly byddaf mewn sefyllfa well i roi sylwadau ar y cynnig hwn pan fyddaf yn dod i'r Pwyllgor ym mis Hydref.

## **Cymorth cyflogaeth**

Fel y nodwyd yn ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor, mae datganoli rhaglenni cyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi bod yn ystyriaeth allweddol dros y misoedd diwethaf yn dilyn cyhoeddi papur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi ar ddiwedd mis Chwefror. Rwy'n gobeithio y bydd aelodau'r pwyllgor yn gwerthfawrogi bod yr ystyriaethau hyn yn gymhleth ac o bosibl yn hirfaith. Fodd bynnag, hoffwn roi sicrwydd i aelodau hefyd bod trafodaethau â'r Adran Gwaith a Phensiynau yn mynd rhagddynt ac rwy'n ymrwymedig i sicrhau ein bod, beth bynnag fydd y canlyniad, yn cael cynnig cyflogaeth cyson ac ymatebol i Gymru sydd o fudd uniongyrchol i unigolion o bob oedran.

Wrth i'r trafodaethau â Llywodraeth y DU fynd rhagddynt rydym yn parhau i sicrhau bod amrywiaeth o raglenni ar gael i gyflogwyr ac unigolion a fydd o fudd uniongyrchol i'r bobl hynny dros 50 oed. Rwyf wedi rhoi dadansoddiad o'r rhain yn fy mhapur cynharach i'r Pwyllgor, gan gynnwys cymorth gan raglenni llwyddiannus fel ReAct. Rwy'n gwerthfawrogi y byddai'r Pwyllgor, wedi'i gefnogi gan y mewnbwn a gafwyd gan randdeiliaid, yn dymuno i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynllun Twf Swyddi Cymru i'r rhai dros 50 oed. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru, y sail resymegol dros Twf Swyddi Cymru yw cynorthwyo pobl ifanc i gael y profiad gwaith gwerthfawr sydd ei angen arnynt i symud ymlaen yn y farchnad lafur ac i liniaru effeithiau economaidd niweidiol hirdymor diweithdra ymhlith ieuencid. Erys hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

## **Polisi a strategaeth sgiliau parhaus**

Rwyf wedi amlygu'n flaenrol bod canolbwynt newidiadau diweddar i bolisi a rhaglenni wedi bod mewn ymateb i'r heriau a nodwyd yn y Datganiad Polisi ar Sgiliau a'r angen i ddatblygu system sgiliau gynaliadwy a chystadleuol i Gymru. Hyd yma rydym wedi datblygu gwaith mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys ymgynghoriad a gwaith polisi helaeth ar brentisiaethau, cyhoeddi'r Fframwaith ar gyfer buddsoddi ar y cyd mewn sgiliau, y pwyslais ar effaith a ategir gan y Mesurau Perfformiad Sgiliau, cymorth i bolisi sgiliau rhanbarthol y mae gwaith y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn sail iddo a'r ymgysylltu parhaus â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ddyfodol cymorth cyflogaeth yng Nghymru.

Ar yr adeg hon, ac o ystyried y rhaglen newid sydd eisoes yn mynd rhagddi i fynd i'r afael â'r heriau cymdeithasol ac economaidd sy'n wynebu economi Cymru, ni allaf ymrwymo i baratoi polisi neu strategaethau ychwanegol sy'n canolbwyntio'n benodol ar bobl hyn yng Nghymru. Fodd bynnag rwyf wedi derbyn nifer o argymhellion y Pwyllgor sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sail dystiolaeth i edrych yn benodol ar yr unigolion hynny dros 50 oed a byddaf yn ystyried y sail dystiolaeth hon yn ofalus wrth inni symud ein rhaglen newid ymlaen.

Edrychaf ymlaen at drafod y pwyntiau uchod gydag aelodau'r Pwyllgor pan fyddaf yn dod i'r sesiwn graffu ar 7 Hydref.

**Julie James AC**  
**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg**



Rt Hon Patrick McLoughlin MP  
Secretary of State for Transport  
Department for Transport  
Great Minster House  
33 Horseferry Road  
London, SW1P 4DR

30 September 2015

Dear Patrick,

### **Enterprise and Business Committee request for further information**

As you know your officials gave evidence to the National Assembly for Wales' Enterprise and Business Committee on 17<sup>th</sup> September. The session was extremely helpful. I and the other committee members are very grateful both to you for making your officials available, and to them for providing such useful evidence. I would ask you to pass on our thanks for their evidence.

Following the meeting the Committee agreed to write to you to request some further information.

While the St David's Day Command Paper stated that there was "no consensus" on taking forward the Silk Commission proposal that funding Network Rail should be devolved, the Welsh Government's position remains that these powers should be devolved. The Enterprise and Business Committee is planning to undertake an inquiry into the future of Welsh rail infrastructure in the spring where the question of infrastructure powers will inevitably arise.

It would therefore be very helpful if you could, as far as possible:

- Clarify what is meant by the statement that there is "no consensus" on devolution of funding for rail infrastructure, and in particular the issues raised by those parties who do not believe devolution to be appropriate; and
- Set out your current position on how investment in Welsh infrastructure would be funded if responsibility for Welsh infrastructure were ultimately



devolved. Specifically the likelihood that any transfer of powers would be accompanied by an increase in the Welsh Block Grant, and how Network Rail's liabilities might be apportioned.

I appreciate that the second point is currently hypothetical. However, given that the Welsh Government is continuing to press for these powers, and the fact that this Committee will be considering these issues in the spring, it would be helpful for us to understand your position before discussing these issues with the Welsh Government and making any recommendations in this area.

Kind regards,

A handwritten signature in black ink that reads "William Graham". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping initial 'W'.

William Graham

Chair, Enterprise and Business Committee



Edwina Hart AM  
Minister for Economy, Science and Transport  
Welsh Government  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

30 September 2015

Dear Edwina,

### **Request for information on the funding of rail services in Wales**

As you may be aware, the Enterprise and Business Committee took evidence from Department for Transport (DfT) officials on 17 September 2015 and discussed a range of issues, including devolution of rail franchising powers. Following this session we agreed to write to you to request some information on the funding of rail services in Wales.

### **Funding for the current Wales and Borders Rail Franchise.**

During budget scrutiny in October 2014 you and your official told us that the failure to index the funding transferred into the Block Grant from 2006–07, when the Welsh Government became responsible for funding and managing the franchise, will have added “about £60 million to £70 million to the cost” by 2018 so that the funding of the franchise was a long-term concern.

To help us understand the financial implications, I would be grateful if you could provide the following information on the funding of the current franchise:

- Details of the total annual payments made by the Welsh Government to Arriva Trains Wales for each year from 2006–07 until the end of the franchise in October 2018 (including forecast payments);



- Details of the element of each annual payment which is provided by the Department for Transport to meet its liabilities for services entirely in England;
- Details of the element of each annual payment which is met by the Welsh Government.

For those payments which are the responsibility of the Welsh Government (bullet point 3 above), we would be grateful if you could also break these down into the following items for each year:

- The element met from the original transfer into the Block Grant which is not index linked;
- The element which represents an additional cost to the Welsh Government in meeting its contractual obligations and which results from the failure to index the Block Grant transfer; and
- The element of the payments which are in addition to franchise contractual obligations (i.e. additional investment to meet Welsh Government priorities).

### **Funding for the next Welsh rail franchise.**

DfT also outlined the key elements of the financial package which accompanied the November 2014 agreement on electrification and franchise devolution. We were told that: the block grant would be “unaffected”; that the Welsh Government would be no better and no worse off as a result of the planned remapping exercise; that “reasonable protection” would be offered against reviews of track and station access charges; that DfT would contribute £125m to Valleys electrification; and DfT would fund electrification between Bridgend and Cardiff.

In the light of your concerns about the impact of the failure to index the Block Grant transfer from 2006–07, I would be grateful if you could set out your views on the implications of this settlement for the funding of the next franchise particularly:

- How this settlement will support the investment necessary to improve the next franchise, given wider pressure on Welsh Government budgets; and



- The implications of the remapping exercise referred to in the St David's Day Command Paper for the next franchise, particularly any financial implications and its impact on passengers.

Your response will be extremely helpful to the Committee in its continuing work on preparations for the next franchise.

Kind regards,

A handwritten signature in black ink that reads "William Graham". The signature is written in a cursive style with a large initial 'W'.

William Graham AM

Chair of the Enterprise and Business Committee



## Eitem 6.2

Mae'n bosibl yr hoffai Aelodau nodi'r Adroddiad Annibynnol ar Deithio Llesol gan yr Athro Stuart Cole a gomisiynwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth:

<http://gov.wales/docs/det/publications/transport/150916-professor-cole-active-travel-report-en.pdf> (Saesneg yn unig)